

Nodyn Cyfarwyddyd ECO-Flex i Ddeiliaid Tai

Mae cynllun ECO-Flex yn cael ei redeg gan gwmnïau preifat a chaiff y cyllid ar gyfer y gwelliannau ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae gan Gyngor Sir y Fflint ymwneud cyfyngedig ac nid yw'n gyfrifol am gyhoeddi'r cyllid, penodi contractwyr na gosod y gwaith.

Mae cyllid ar gael ar gyfer perchen-feddianwyr preifat a thenantiaid rhent preifat yn unig.

Camau sy'n rhan o'r broses

1. Bydd angen i ddeiliaid tai gysylltu ag asiant sy'n darparu'r cynllun. Mae nifer o asiantiaid yn gweithredu yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r cwmnïau hyn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol dros y ffôn, dros e-bost, wrth eich drws, drwy lythyr neu daflen. Mae'r Cyngor yn argymhell yn gryf nad ydych yn derbyn ymholiadau galwyr diwahoddiad wyneb i wyneb a bod prawf digonol o hunaniaeth yn cael ei ddarparu gan asiantiaid a chontractwyr bob amser. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo neu argymhell asiant penodol, ond byddai'n argymhell eich bod yn ceisio cyngor annibynnol i sicrhau eich bod yn cael cynnig y fargen orau. Mae'n bosibl y bydd Gofal a Thrwsio (Gogledd Ddwyrain Cymru) yn gallu eich cynorthwyo. Rhif ffôn cyswllt yw 01352 758700.
2. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael gwelliannau effeithlonrwydd ynni, bydd yr asiant yn gwirio eich bod chi a'r eiddo yn bodloni meini prawf cymhwyso'r cynllun. Byddant hefyd yn trefnu bod arolwg o'r eiddo yn cael ei gynnal i edrych ar bethau fel oedran y boeler, mesurau inswleiddiad presennol sydd ar waith a nifer a maint yr ystafelloedd.

Meini Prawf Cymhwyso: rhaid i ymgeiswyr fod yn byw mewn tloidi tanwydd neu fod yn agored i effeithiau byw mewn cartref oer a byw mewn eiddo gyda thystysgrif EPC E, F neu G neu sgorio'n uchel ar y ffurflen gais os nad oes ganddynt EPC.

Gofynnir i ddeiliaid tai lenwi ffurflen gais fer a gaiff ei chyflwyno i Gyngor Sir y Fflint i benderfynu ar gymhwysedd.

Rhaid dychwelyd y ffurflen gais i'r asiant a fydd yn cyflwyno'r cais ar eich rhan. NI DDYLAI'R deiliad tŷ anfon y ffurflen yn uniongyrchol i'r Cyngor Sir.

Bydd yr asiant yn anfon adroddiad i gwmni ynni a fydd yn cynnig swm o arian maen nhw'n barnu sy'n briodol i wella sgôr effeithlonrwydd ynni yr eiddo.

3. Mae'r Cyngor Sir yn codi £101.50 a TAW i dalu'r costau gweinyddol. Mae'r gost hon yn cael ei thalu gan y cyflenwr ynni neu'r asiant, **nid y deiliad tŷ**. Ni chaiff yr asiant ofyn i chi dalu'r gost hon dan unrhyw amgylchiadau.
4. Pan fydd y Cyngor wedi cadarnhau cymhwysedd, bydd angen i'r asiant ei drosglwyddo i gwmni ynni, ynghyd â phrawf bod y cleient yn byw yn yr eiddo (e.e. bil aelwyd) a phrawf o berchnogaeth.

5. Y cwmni ynni fydd yn gwneud y penderfyniad o ran p'un a fyddwch yn cael unrhyw gefnogaeth. **Ni** fydd Datganiad wedi'i lofnodi gan Gyngor Sir y Fflint yn gwarantu gosod unrhyw welliannau oherwydd y cwmni ynni fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
6. Os yw'r asiant wedi cael caniatâd i wneud gwaith, bydd angen dyfynbris arnynt gan y sawl sy'n gosod er mwyn gweld beth fydd y gost. Bydd angen i'r sawl sy'n gosod dod i'ch cartref i gynnal arolwg arall i lunio pris cywir ar gyfer cost y gwaith.

Os bydd cost gosod yn is na chost y cynnig gan y cwmni ynni, bydd y gwaith yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim. Os nad yw, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi wneud cyfraniad ariannol y bydd yr asiant yn cynghori arno.

Nodwch: Nid oes rhwymedigaeth arnoch i barhau â'r gosod ar y cam hwn.

Os oes angen cyfraniad ariannol gan y deiliad tŷ, mae'n bosibl bod grantiau neu fenthyciadau i gynorthwyo â hyn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gofal a Thrwsio (Gogledd Ddwyrain Cymru) ar 01352 758700.

7. Pan fydd yr asiant yn gwneud cynnig cadarn i chi, byddant yn archebu'r deunyddiau a/neu drefnu contractwr a threfnu dyddiad i wneud gwaith gwella.

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd o ganlyniad i unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled sy'n codi o dderbyn grant ECO FLEX neu sy'n codi o waith neu ymdrechion sy'n gysylltiedig â pharatoi, gwneud cais neu gynnal arolwg cyn grant.

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn cymeradwyo unrhyw gyflenwr ynni penodol, asiant grant, gosodwr neu gwmni sy'n gysylltiedig â gwneud cais am, neu osod, grantiau neu gynnyrch ECO flex.

Dylid mynegi unrhyw gŵyn neu fater a godir yn erbyn gwaith grant neu'r broses o wneud cais, gyda'r parti sy'n gosod / asiant / cyllidwr. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyfyngu ei ymwneud i ddatgan cymhwysedd. Mae'r cynllun hwn yn cael ei reoleiddio gan Ofgem a dylid cyfeirio unrhyw bryderon neu gwynion at Ofgem.